

Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm

Gwella ansawdd ymarfer mewn gofal cymdeithasol

Rhaid gwella ansawdd gwasanaethau er mwyn diwygio gofal cymdeithasol a rheolwyr rheng flaen ac uwch ymarferwyr sy'n gyfrifol am y gwelliant hwn ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Cynlluniwyd y rhaglen yn benodol i helpu rheolwyr rheng flaen ac uwch ymarferwyr yng Nghymru i wella rheolaeth ansawdd ymarfer yn eu timau.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd gennych ddealltwriaeth well o'r gyrwyr allweddol sy'n dylanwadu ar ansawdd ymarfer mewn gofal cymdeithasol, a byddwch mewn safle gwell i wneud penderfyniadau rheoli achosion da. Bydd hefyd yn datblygu sgiliau personol trosglwyddadwy megis rheoli prosiectau, gwerthuso a meddwl beirniadol.

Gwybodaeth am y rhaglen

Astudir y rhaglen dros gyfnod o ddeuddeg mis. Mae iddi dri modiwl gorfodol. Mae'r rhaglen yn cychwyn gyda gweithgareddau paratoi manwl ac ymgysylltu gan gynnwys seminar cyn y rhaglen ar eich cyfer chi a'ch rheolwr llinell. Yna gofynnir i chi gwblhau asesiad 360 gradd cyn dechrau'r modiwl cyntaf.

Mae pob un o dri modiwl y rhaglen yn cynnwys dyddiau addysgu, setiau dysgu gweithredol cynorthwyedig a gwaith asessedig. Byddwch yn mynychu sesiwn dysgu dau ddiwrnod i bob modiwl sy'n cyfuno theori ag astudiaeth achos ac ymarferion cymhwysiad ymarferol. Byddwch hefyd yn mynychu diwrnod cymorth grŵp i bob modiwl a chael sesiwn cymorth unigol gydag Ymgynghorydd Academiaidd er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cymhwyso'ch dysg yn effeithiol yn y gweithle.

Fydd y gwaith cwrs wedi'i asesu yn cynnwys traethawd a dau brosiect yn seiliedig ar waith, y gellir eu teilwra'n unigol i gwrdd ag anghenion eich sefydliad. Anogir cyfranogwyr i gwblhau asesiadau, a derbyn cefnogaeth, trwy gyfrwng y Gymraeg.

Daw'r rhaglen i ben gyda gwerthusiad o weithgareddau'r rhaglen a'ch anghenion dysgu, gan gynnwys ailymweld â'r asesiad 360 gradd a'ch cynllun datblygu personol.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn ennill **Tystysgrif Ôl-radd mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol** - credydau 60 CATS ar lefel ôl-raddedig 7 - o Brifysgol Oxford Brookes.

Mae'r tri modiwl yn cwmpasu:

Cyflwyniad i Reoli Ansawdd Ymarfer

Mae'r modiwl hwn yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr am yr agenda cenedlaethol a gyrrwyr allweddol ansawdd ymarfer o fewn meysydd gofal cymdeithasol, ac yn cynnig dulliau effeithiol i wynebu'r heriau hyn:

- Cyflwyniad i ansawdd ymarfer
- Rheoli ansawdd ymarfer mewn cyd-destun
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth wraidd gwella ansawdd
- Rheoli'r galw a'r gallu

Cadarnhau Perfformiad ac Ansawdd

Mae'r modiwl hwn yn rhoi i'r myfyrwyr seiliau cadarn o wybodaeth a sylfaen ar ddefnyddio tystiolaeth effeithiol mewn ymarfer. Bydd sgiliau mewn gwerthuso critigol a defnyddio'r dystiolaeth i ddatrys heriau cynhenid i ymarfer gofal cymdeithasol yn sail i'r modiwl hwn:

- Hyrwyddo a chynnwys ymarfer ar sail cyflwyno tystiolaeth
- Rheoli perfformiad
- Dilysu perfformiad - rôl archwilio ac adolygu gwasanaethau

Arwain a Rheoli ar gyfer Ansawdd

Mae'r modiwl hwn yn ystyried nodweddion rheolaeth o fewn timau, perthynas a swyddogaethau, a sgiliau i'w gweithredu. Mae'n archwilio egwyddorion newid ac ymateb unigolion a thimau ac mae'n darparu arfau buddiol:

- Arweinyddiaeth tîm mewn gofal cymdeithasol
- Gwella a rheoli perfformiad timau ac unigolion
- Arwain a chynorthwyo datblygiad a newid

Gwybodaeth Bellach

Mae [Sefydliad Gofal Cyhoeddus \(IPC\)](#) yn gweithio i sicrhau canlyniadau gwell drwy ofal cymdeithasol ar sail tystiolaeth sy'n cael ei redeg yn dda; cynnig ymchwil cymwysedig, ymgynghoriaeth, datblygu sgiliau a llunio system. Ymhlith cleientiaid IPC mae darparwyr gofal a chymorth, llywodraeth ganolog a lleol a sefydliadau'r GIG. Ein pwrpas ydy helpu gwella'r modd y mae gofal cyhoeddus yn cael ei redeg a'i wneud yn fwy seiliedig ar dystiolaeth. Gwnawn hyn drwy ddadansoddi, gwerthuso ac ail-gynllunio gwasanaethau, helpu i weithredu newidiadau, a rhaglenni datblygu sgiliau. Ers 1987 rydyn ni wedi arwain y ffordd ym maes syniadau ac ymarfer ar ailgynllunio a newid gwasanaethau, trefniadau comisiynu, rheoli perfformiad, cynllunio gweithlu, rheoli a hyrwyddo'r farchnad ym maes gofal cyhoeddus. Mae'r Sefydliad hefyd yn cyflenwi [Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol](#), ynghyd â Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol ledled Cymru.

Comisiynwyd y rhaglen genedlaethol hon gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar ran Pwyllgor Rheoli Rhaglenni Cenedlaethol. Cost y rhaglen ydy £3,000 y person. Am ragor o wybodaeth, neu i archebu lle, cysylltwch â'r e-bost hwn: ipc_courses@brookes.ac.uk.